COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 24 IONAWR 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | DG Howells | A Hussain | DRW Lewis |
| RME Stirman | E Venables | DBF White | JE Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SE Baldwin, P Davies, DK Edwards, JC Radcliffe, G Thomas a/ac MC Voisey

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Sarah Daniel | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Fiona James | Uwch Syrfëwr Datblygu |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Guy Smith | Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Carly McCreesh | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Cynghorydd Hywel Williams | Dirprwy Arweinydd |
| Cynghorydd Richard Young | Aelod Cabinet - Cymunedau |

61. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Gwnaed y datganiadau o gysylltiad canlynol:

Datganodd y Cynghorydd N Clarke gysylltiad personol yn eitem 5 yr agenda, Trosglwyddo Ased Cymunedol, oherwydd ei bod hi'n aelod o Gyngor Tref Porthcawl ac ynghlwm mewn proses Trosglwyddo Ased Cymunedol ar hyn o bryd.

Datganodd y Cynghorydd R Stirman gysylltiad personol yn eitem 5 yr agenda, Trosglwyddo Ased Cymunedol, oherwydd ei bod hi'n aelod o Gyngor Cymuned Cwm Garw.

62. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 dyddiedig 22 Hydref 2018 fel cofnod gwir a chywir.

63. DIWEDDARIAD Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r adborth o gyfarfodydd blaenorol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 a gofynnodd i'r aelodau a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag Eiddo Gwag, a fyddai'n cael eu hystyried yng nghyfarfod 25 Chwefror 2019. Gofynnodd yr Aelodau a ellid darparu diweddariad ar yr amserlen er mwyn i swyddog ymchwilio ac, a ellid darparu protocol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am nifer yr eiddo gwag oedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a nifer y bobl ddigartref yn yr un ardal. Esboniodd y Swyddog Craffu y byddai adroddiad ar y Strategaeth Ddigartrefedd yn cael ei chyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.

Ychwanegodd y Swyddog Craffu, yn ogystal â'r adborth yn yr adroddiad, anfonwyd llythyr at Un Llais Cymru mewn perthynas â gwahoddiad i gyfarfod 22 Hydref lle ystyriwyd Cydweithredu gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Atebodd cynrychiolydd Un Llais Cymru fod y gwahoddiad wedi'i anfon ymlaen at y Prif Swyddog Gweithredol ac yna wedi'i esgeuluso'n anffodus, ond datganodd yr hoffai gymryd rhan yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Cyflwynodd y Cynghorwyr Venables a Howells ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod mis Chwefror. Gofynnodd aelod am adroddiad cynnydd ar ollwng sbwriel a baw cŵn. Fe'i cynghorwyd i lenwi ffurflen atgyfeirio.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

1. Yn cymeradwyo'r adborth o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc a nodwyd yr ymatebion oedd yn weddill.
2. Yn gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r adborth uchod.
3. Yn nodi gwybodaeth ychwanegol yr oeddent yn dymuno'i chael wrth ystyried eitemau a ddirprwywyd i gyfarfodydd y dyfodol.

64. TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gweithredu'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu 3 ym mis Ionawr 2018, newidiadau arfaethedig i bolisi a phrosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor a gweithgarwch Trosglwyddo Asedau Cymunedol y presennol a'r dyfodol. Amlinellodd newidiadau diweddar i'r strwythur staffio yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, gan gynnwys newidiadau i rolau a'r llinellau adrodd. Darparodd gefndir i Trosglwyddo Asedau Cymunedol ac esboniodd fod rhaid i'r Cyngor barhau i weithio ar y cyd â sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddiogelu'r gwasanaethau o werth i'r cymunedau. Cyfeiriodd at yr adroddiad yn ymwneud â Meysydd Chwarae, Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored a Pharciau a Phafiliynau a ystyriwyd gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 a'r Cabinet oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgymryd ag ymarfer ymgynghori ar gynigion i wneud darpariaeth caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon awyr agored a phafiliynau chwarae'r Cyngor yn fwy ariannol gynaliadwy wrth symud ymlaen. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ddosbarthu maes o law.

Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau, y Gwasanaethau Cymunedol fod canllawiau diweddar ar Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi'u dosbarthu ym mis Hydref 2015 ac roedd yn seiliedig ar Arweiniad i'r Arfer Gorau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn argymell newidiadau i'r broses nad oeddent yn unol â'r Arweiniad i'r Arfer Gorau. Cadarnhaodd fod y Bwrdd Rheoli Corfforaethol wedi cytuno i ymestyn y contract i'r swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol am 3 blynedd bellach.

Amlinellodd Pennaeth Gweithrediadau, y Gwasanaethau Cymunedol weithgarwch Trosglwyddo Asedau Cymunedol, y cymhellion ariannol a chymorth arall, gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan gynnwys rhestr o argymhellion interim. Ychwanegodd y byddai'r argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i gyd-daro gyda'r adroddiad oedd yn amlinellu canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a chyflwyniad arfaethedig o'r adferiad cost lawn. Gofynnodd aelod am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r amserlenni ar gyfer yr ymgynghoriad. Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau, y Gwasanaethau Cymunedol ei bod hi'n debygol y byddai'r

ymgynghoriad yn para 12 wythnos, byddai'n cymryd oddeutu mis i goladu'r canlyniadau a pharatoi adroddiad i'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Esboniodd y Swyddog CAT i'r Pwyllgor fod y cymhorthdal o 80% oedd ar gael yn atal partïon cyfrannog rhag ymroi i'r broses, ond roeddent yn ymwybodol o'r broses ac yn ymgysylltu â'r awdurdod. Ychwanegodd fod 40 pafiliwn, 6 i 7 clwb bowlio a 4 i 5 maes chwarae ond nid oedd pob un ohonynt yn addas ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Gofynnodd yr aelodau am sicrhau bod rhestr ddiweddar lawn ar gael i bob aelod er mwyn iddynt allu gweld pa asedau oedd ar gael i'w trosglwyddo.

Awgrymodd aelod oherwydd yr amser yr oedd yn ei gymryd i gwblhau 4 trosglwyddiad, y dylai'r Cyngor roi i fyny ar y syniad o Drosglwyddo Asedau Cymunedol a dechrau bod yn gyfrifol am redeg ei wasanaethau ei hun. Ni fyddai gan lawer o'r grwpiau'r wybodaeth na'r arbenigedd i gymryd rhan yn y broses ac roedd swm yr arian a wariwyd ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn llawer mwy na'r hyn oedd wedi'i arbed.

Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol, fel swyddog oedd yn gyfrifol am gyllideb a effeithiwyd gan gynigion Strategaeth Ariannol y Tymor Canolig, roedd rhaid iddo ddod o hyd i ffordd ymlaen. Ychwanegodd Cymunedau'r Aelodau Cabinet nad oedd ganddynt yr arian i barhau i gynnig y cyfleusterau hyn i'r cyhoedd. Nid oedd cyfrifoldeb statudol i ddarparu'r gwasanaethau hyn ond rhoddodd Trosglwyddo Asedau Cymunedol gyfle i gadw'r asedau'n agored i'r cyhoedd barhau i ddefnyddio'r cyfleusterau. Roedd rhaid cael diwydrwydd dyladwy i ddiogelu'r sefydliad a'r Cyngor, ond canfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trosglwyddo Asedau Cymunedol ffordd ymlaen lle gallent gyflymu'r broses.

Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau, y Gwasanaethau Cymunedol fod lefel o hyder yn y sefydliadau yn gyffredinol a rhoddwyd hwb i'r hyder hwn yn sgil tystiolaeth awdurdodau cyfagos megis Castell-nedd Port Talbot (CBSCPT) lle trosglwyddwyd y mwyafrif ac ychydig iawn oedd wedi dod yn ôl. Ychwanegodd yr Uwch Syrfëwr Datblygu, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd, trosglwyddwyd rhwng 50 a 60. Ni ddilynodd CBSCPT arfer gorau Llywodraeth Cymru, defnyddion nhw brydles safonol ac roedd y mwyafrif ar waith o hyd. Gofynnodd yr Aelodau am y ffigurau Trosglwyddo Asedau Cymunedol CBSCPT a gyflawnwyd, gan gynnwys sawl un oedd wedi'u trosglwyddo a faint oedd wedi parhau i fod ar agor ar ôl i'r trosglwyddiad ddigwydd.

Datganodd cynrychiolydd Canolfan Gydweithredol Cymru y gallen nhw ddarparu cymorth o gwmpas yr holl agweddau fel cyllid, masnachu a pherfformiad. Argymhellodd yr aelodau bod swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau trydydd parti i roi arweiniad at ei gilydd ar ba gymorth / grantiau oedd ar gael i ddarpar bartïon cyfrannog i'w cefnogi trwy broses CAT er mwyn i grwpiau gael gwybod yn llwyr pa lifoedd ariannu a chymorth heb fod yn ariannol oedd ar gael iddynt.

Gofynnodd aelod am grynodeb o'r ffigurau amcanol ar gost rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn erbyn y cynilion allai gael eu dychwelyd o bosibl petai pob Trosglwyddiad Asedau Cymunedol yn llwyddiannus. Gofynnodd yr aelodau fod hyn yn cynnwys amser ac adnoddau'r swyddog ar brosesu Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Gofynnodd aelod pa brosesau oedd ar waith yn achos sefydliad yn cymryd rheolaeth ar ased ac a oedd yn mynd i'r wal wedi hynny ac a ystyriwyd hyn. Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol fod hyn wedi'i drafod a'i fod yn dibynnu ar yr ased. Y gwirionedd oedd, petai ased yn dod yn ôl ar ôl trosglwyddo, ni fyddai cyllideb i'w redeg a byddai'n ased dros ben. Pe na fyddai partïon eisiau ei redeg, byddai'n rhaid iddyn nhw benderfynu a allai gael ei ddymchwel neu werthu fel potensial i ddatblygu.

Gofynnodd aelod sut roedd hyn yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol y byddai colli'r ddarpariaeth yn broblem ac er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, Trosglwyddo Asedau Cymunedol oedd y ffordd ymlaen. Gofynnodd yr aelodau am arweiniad pellach ar sut roedd y potensial o gau asedau lle nad oedd Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi'i gyflawni'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cwestiynodd aelod nifer yr arolygon a gyflawnwyd am gost o dros £122,000 a gofynnwyd a oedd pob un ohonynt yn angenrheidiol ar hyn o bryd. Esboniodd Cymunedau'r Aelodau Cabinet nad oedd yr awdurdod yn gallu cynnal y cyfleusterau hyn a phe na fyddai dim yn cael ei wneud, bydden nhw'n cau ta beth oherwydd bydden nhw'n gwaethygu i'r fath raddau, ni fyddai gan y cyhoedd yr hawl i'w defnyddio. Ychwanegodd y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol ei bod hi'n gostus comisiynu arolwg, ond roedd yr awdurdod yn gyfrifol am wneud grwpiau'n ymwybodol o'u cyfrifoldeb cyn iddynt gymryd rheolaeth ar ased. Argymhellodd yr aelodau cyn symud Trosglwyddo Ased Cymunedol yn ei flaen, oedd yn golygu costau fel ymgymryd ag arolwg cyflwr o adeilad, bod hyfywedd y grŵp/cymuned i allu symud Trosglwyddo Ased Cymunedol yn ei flaen yn cael ei archwilio cyn mynd i gostau.

Gofynnodd aelod a allai rhai grwpiau gael mynediad i gyllid nad oedd ar gael i'r Awdurdod Lleol. Esboniodd y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol y gallen nhw wneud cais am gyllid, ar yr amod bod prydles tymor hir dros 10 mlynedd yn bodoli. Mantais arall oedd y gallai'r sefydliadau hyn ddefnyddio crefftwyr a mynd at waith adeiladu am y gost wirioneddol.

Cododd aelod mater cyfrifoldeb am lochesi bysus. Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol fod rhai ar dir oedd yn berchen i'r Cyngor Bwrdeistref a rhai i'r Cyngor Tref ac roedd rhai ar brydles ar gyfer hysbysebion. Roedd yn poeni am hyfywedd ariannol Trosglwyddo Asedau Cymunedol a llochesi bysus oherwydd roedd nifer uchel ohonynt a byddai'r arbedion yn isel.

Gofynnodd aelod pa gynnydd a wnaed mewn perthynas â datblygu tudalennau gwe i hyrwyddo Trosglwyddo Asedau Cymunedol ac i ddarparu gwybodaeth sylfaenol. Esboniodd y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol y cafwyd trafodaethau cychwynnol ac roedd y polisi'n cael ei ddiweddaru, ond ni fyddai ar gael tan fis Mawrth. Wedyn, byddai'r polisi'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn iddo gael ei uwchlwytho i'r wefan lle byddai o fewn cyrraedd pob grŵp.

Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau, y Gwasanaethau Cymunedol fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi canolbwyntio ar symleiddio proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan gynnwys darparu gwybodaeth o flaen llaw a defnyddio templedi safonol. Roedd hyn yn symudiad i ffwrdd o fodel busnes Llywodraeth Cymru i ddull mwy seiliedig ar risgiau. Bydden nhw'n parhau i ddisgwyl lefel o gynllunio ariannol ond byddai swm y gwaith angenrheidiol yn lleihau mewn llawer o achosion. Pwysleisiodd fod hwn yn symudiad i ffwrdd o arfer gorau a gofynnodd i'r Pwyllgor gyfeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y dull hwn. Ychwanegodd yr Uwch Syrfëwr Datblygu na fyddai hyn yn berthnasol ym mhob achos a byddai'r polisi presennol yn parhau ar gyfer yr achosion mwy cymhleth. Gofynnodd aelod beth oedd y gwahaniaethau sylweddol a'r goblygiadau i'r awdurdod petaen nhw'n symud i ffwrdd o arfer gorau Llywodraeth Cymru. Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau, y Gwasanaethau Cymunedol y gallai Swyddfa Archwilio Cymru edrych ar arfer y cyngor a beirniadu'r Cyngor am beidio â mabwysiadu arfer gorau Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol fod y broses ddiwygiedig roedden nhw'n edrych arni'n rhoi mwy o bwyslais ar alluoedd y sefydliad i gynnal yr ased yn y tymor hir. Awgrymodd aelod y dylai'r awdurdod ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn esbonio bod angen strategaeth fwy ymarferol. Atebodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol fod lle am arfer gorau

Llywodraeth Cymru pan oedd hi'n dod i drosglwyddo modelau mwy o faint ond nid o reidrwydd i fodelau llai o faint. Nodwyd nad oedd arweiniad LIC ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn statudol, ac felly gofynnodd yr aelodau i swyddogion ysgrifennu at Lywodraeth Cymru'n cadarnhau a gafwyd unrhyw adborth negyddol gan yr Awdurdodau a oedd wedi symud i ffwrdd o'r model arfer gorau. Roedd yr aelodau o blaid swyddogion yn symud i ffwrdd o arfer gorau awgrymedig LIC yn ôl y manylion ym mharagraff 4.32 yr adroddiad er mwyn symleiddio proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol i osgoi cau asedau ac i alluogi grwpiau i gymryd dros y gwaith o redeg yr asedau'n fwy amserol.

Gofynnodd aelod a ystyriwyd trosglwyddo cyfleusterau i gwmni dielw. Esboniodd y Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol y byddai unrhyw sefydliad yn wynebu'r un problemau oherwydd ni fyddai'r incwm yn ddigon i dalu'r costau. Gofynnodd yr aelodau i swyddogion archwilio'n llawn y dewis i gychwyn sefydliad dielw fel Awen, er mwyn ymgymryd â throsglwyddo'r asedau yn y Fwrdeistref a rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt aros yn agored ar ôl i'r trosglwyddiad ddigwydd ac i gyflawni'r arbedion yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw Awdurdod Lleol arall wedi ymgymryd â'r math hwn o drosglwyddiad.

Trafododd yr Aelodau'r arbedion angenrheidiol dros y blynyddoedd nesaf. Esboniodd y Dirprwy Arweinydd fod rhaid iddynt fantoli'r cyfrifon ac roedd y canlyniadau o'r ymgynghoriad o ran y gyllideb a'r blaenoriaethau'n dynodi nad oedd meysydd chwarae'n flaenoriaeth. Y bwriad oedd rhoi cyfle teg i sefydliadau gymryd dros gyfleusterau cynaliadwy a dod ag atebion gerbron.

**Ceisiadau am Wybodaeth Bellach a Chasgliadau**

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu hamser yn paratoi'r adroddiad a mynychu'r cyfarfod i ateb cwestiynau.

**Rhagor o Wybodaeth**

- Gofynnodd yr aelodau am restr ddiweddar lawn o asedau i fod ar gael i bob aelod er mwyn iddynt allu gweld pa asedau oedd ar gael i'w trosglwyddo.
- Gofynnodd yr aelodau am ffigurau Trosglwyddo Asedau Cymunedol CBSCPT a gyflawnwyd, gan gynnwys sawl un oedd wedi'u trosglwyddo a sawl un a arhosodd ar agored ac yn llwyddiannus ar ôl i'r trosglwyddiad ddigwydd.
- Gofynnodd yr aelodau am grynodeb o'r ffigurau amcanol ar gost rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn erbyn yr arbedion a allai gael eu dychwelyd o bosibl petai pob Trosglwyddiad Asedau Cymunedol yn llwyddiannus. Mae'r aelodau'n gofyn i hyn gynnwys amser ac adnoddau'r swyddog ar brosesu Trosglwyddiad Asedau Cymunedol.
- Gofynnodd yr aelodau i gael arweiniad pellach ar sut mae potensial cau asedau lle nad oes Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael ei gyflawni'n cydymffurfio â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhellion**

- Nodwyd gan aelodau nad oedd yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn statudol, felly gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gadarnhau a fu unrhyw adborth negyddol gan Awdurdodau a symudodd i ffwrdd o'r model arfer gorau.
- Roedd yr aelodau o blaid swyddogion yn symud i ffwrdd o arfer gorau awgrymedig Llywodraeth Cymru yn ôl y manylion ym mharagraff 4.32 yr adroddiad er mwyn symleiddio proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol i osgoi cau asedau ac i alluogi grwpiau i gymryd dros y gwaith o redeg yr asedau'n fwy amserol.

- Argymhellodd yr aelodau cyn symud Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn ei flaen i gam a oedd yn golygu costau fel ymgymryd ag arolwg cyflwr o adeilad, bod hyfywedd y grŵp / cymuned i allu symud Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn ei flaen yn cael ei archwilio cyn mynd i gostau.
- Argymhellodd yr aelodau fod swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau trydydd parti eraill i roi arweiniad at ei gilydd ar ba gymorth / grantiau sydd ar gael i ddarpar bartïon cyfrannog i'w cefnogi trwy broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol er mwyn i grwpiau gael gwybod yn llawn pa lifoedd ariannu a chymorth anariannol sydd ar gael iddynt.
- Gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion archwilio'n llawn y dewis i gychwyn sefydliad dielw fel Awen i ymgymryd â throsglwyddo'r asedau yn y Fwrdeistref a rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt barhau ar agor ac yn llwyddiannus ar ôl i'r trosglwyddiad ddigwydd a chyflawni'r arbedion yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Gofynnwyd i'r aelodau archwilio a gyflawnodd yr Awdurdodau Lleol hyn.

65. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30